BANK OF ENGLAND

# Fforwm y Dyfodol 2016

## Themâu allweddol a'r camau nesaf


Fforwm y Dyfodol 2016

# Addysg

## Dywedoch wrthym:

***Ceir bylchau mewn economeg ac addysg ariannol, sy’n rhwystro aelwydydd a chwmnïau rhag gwneud penderfyniadau gwybodus ynghylch dyled, buddsoddi a’r economi ehangach.***









# Rydym yn dymuno cyflawni rôl sylfaenol wrth hyrwyddo dealltwriaeth y cyhoedd o faterion economaidd ac ariannol.


- Rydym wedi lansio Knowledgebank er mwyn gwella dealltwriaeth y cyhoedd o rôl y Banc a materion economaidd eraill.
- Byddwn yn siarad â sefydliadau perthnasol er mwyn gweld sut y gallwn helpu i gynorthwyo addysg economaidd ac ariannol, gan adrodd yn ôl am ein cynlluniau yn nes ymlaen yn 2017.


KnowledgeBank

# Cyfathrebu

## Dywedoch wrthym:

*Er mwyn i'n polisïau fod yn effeithiol, rhaid bod pobl yn deall rôl y Banc ac economeg ehangach yr hyn yr ydym yn ei wneud.*







## Fforwm y Dyfodol 2016




### Tywys pobl y tu hwnt i'r rhifau




## Mae angen i ni wneud mwy er mwyn esbonio'r hyn a wnawn, mewn ffordd y mae pobl yn ei deall.


- Byddwn yn sicrhau bod ein hallbwn yn fwy eglur a syml, gan ddefnyddio cyfryngau cymdeithasol a digidol yn fwy. Byddwn yn ailwampio ein prif gyhoeddiadau er mwyn sicrhau eu bod yn fwy hygyrch. Byddwn yn cynnig mwy o gyfleoedd i chi ymgysylltu â ni yn uniongyrchol trwy wella ein rhaglen digwyddiadau rhanbarthol a'n mentrau eraill.

# Manteisio ar gyllid

Fforwm y Dyfodol 2016

## Dywedoch wrthym:

*Er bod yr amodau wedi gwella, mae mentrau bach a chanolig (SMEs) yn ei chael hi'n anoddach sicrhau cyllid o hyd, o'u cymharu â chwmnïau mwy.*








Dymuno gweld Bank of England yn meddwl mwy am y cyllid y mae ei angen arni a'r hyn y byddai modd i Bank of England ei wneud ar gyfer SMEs.

- Offer
- Polisi
- Offerynnau






**Mae pwyll yn peri risg tanfuddsoddi**




## Mae angen i economi sy'n ffynnu gynnwys busnesau sy'n gallu manteisio ar gyllid er mwyn cynorthwyo buddsoddiad a thwf.

- Rydym yn gweithio i wella gweithgarwch rhannu gwybodaeth, ac rydym wedi helpu 50,000 o fusnesau i sicrhau statws credyd am y tro cyntaf, gan godi terfynau credyd argymelledig Asiantaethau Cyfeirio Credyd ar gyfer busnesau yn y DU gymaint â £2.4 biliwn yn ôl amcangyfrifon.


- Gofynnom i 5,000 o fusnesau pa sialensiau y maent yn eu hwynebu wrth fanteisio ar gyllid, a byddwn yn defnyddio'r ymatebion a gawsom er mwyn deall yn well sut y caiff buddsoddiad ei ariannu fel rhan o raglen waith ehangach er mwyn annog buddsoddi cynhyrchiol.

## Dod yn fanc yn y Deyrnas Unedig

New Bank Start-up Unit

- Gyda FCA, lansiom New Bank Start-up Unit er mwyn cynorthwyo banciau newydd i ymuno â'r farchnad, gan gynyddu cystadleuaeth yn y system fancio ac ehangu ffynonellau cyllid.

- Byddwn yn parhau i weithio er mwyn gwella cydnerthedd system ariannol y DU.  Mae lefelau cyfalaf banciau y DU yn uwch nag yr oeddent cyn yr argyfwng a chynhaliom ein prawf straen mwyaf erioed er mwyn sicrhau bod modd i fanciau barhau i fenthyca i aelwydydd a busnesau yn ystod sioc difrifol iawn.




# Manteisio ar gyllid

## Dywedoch wrthym:

*Mae angen ffurfiau cyllid newydd ac arloesol arnom, gan gynnwys y rhai sy'n manteisio ar ddigideiddio cyllid.*



Gallwn ddarparu'r meini ar gyfer system ariannol fwy cystadleuol ac effeithlon. Gallwn wneud hyn trwy feithrin datblygiad ein technolegau newydd yn ein systemau talu a thrwy wella diogelwch ein dyfeisiau a'n gwybodaeth ddigidol.

Rydym wedi lansio FinTech Accelerator er mwyn ein helpu i gydweithio ag ystod eang o gwmnïau technoleg newydd, gan ystyried y ffyrdd y prosesir ein taliadau, sut y diogelir ein data a sut y mae modd i ni amddiffyn rhag ymosodiadau seiber.

Byddwn yn creu cymuned ffurfiol o arbenigwyr, datblygwyr a defnyddwyr technoleg ariannol. Bydd y gymuned hon yn rhannu gwybodaeth, tueddiadau a dirnadaeth gyda ni, a bydd yn caniatáu i ni ymestyn ein cyswllt i gwmnïau ac ymchwilwyr y tu hwnt i Lundain.

Rydym yn gweithio i ddeall effaith digideiddio ar yr economi fyd-eang a sefydlogrwydd y system ariannol fyd-eang trwy:

- Ein cyfranogiad yng nghyfarfodydd Llywodraethwyr y Banc Canolog a Gweinidogion Cyllid G20 — gan ystyried sut y mae modd defnyddio technolegau digidol er mwyn ysgogi datblygiad a thwf economaidd cynhwysol;
- Y Bwrdd Sefydlogrwydd Ariannol — ystyried goblygiadau technoleg ariannol ar gyfer sefydlogrwydd ariannol a rheoleiddio.

FinTech Accelerator

G20 GERMANY 2017
HAMBURG


FSB FINANCIAL STABILITY BOARD

# Cynnig sicrwydd a sefydlogrwydd

## Dywedoch wrthym:

Fforwm y Dyfodol 2016

*Gallwn wneud mwy i leihau ansicrwydd ac mae gennym rôl i'w chwarae wrth helpu pobl i ddeall y cyfleoedd a'r risgiau sy'n deillio o Brexit*






## Byddwn yn parhau i esbonio ein safbwynt ynghylch yr holl risgiau posibl i'r economi mewn ffordd eglur, a hefyd, yr hyn y gallwn ei wneud amdanynt a’r hyn na allwn ei wneud amdanynt, sy’n beth pwysig i’w wybod.

- Byddwn yn parhau i wella ein rhaglen o ddigwyddiadau rhanbarthol er mwyn helpu i’n cysylltu yn fwy â’r cyhoedd, fel bod modd i ni wrando a chymryd rhan mewn deialog am yr economi a’n rôl ynddi.
- Bydd hyn yn cynnwys digwyddiadau tebyg i Fforwm y Dyfodol, yn ogystal â rhaglen rheolaidd o ddigwyddiadau cyhoeddus, a gynhelir ar y cyd ag elusennau a sefydliadau eraill sy’n cynrychioli cymdeithas.




Mae angen i Bank of England fynd allan a...




Fforwm y Dyfodol 2016

Fforwm Agored 2015